Bwletin yr Archwilydd Meddygol

Isod mae'r cyntaf o gyfres o Fwletinau gan yr Archwilydd Meddygol Cenedlaethol ar gyfer Cymru a Lloegr. Bydd ail fwletin sy'n darparu trosolwg o'r Digwyddiad Archwilydd Meddygol yn Llundain ar 25 Ebrill yn dilyn yn fuan.

Annwyl Gyfarwyddwr Meddygol

Gan fy mod wedi bod yn Archwilydd Meddygol Cenedlaethol ers ychydig wythnosau bellach, roeddwn i eisiau ysgrifennu atoch i gyflwyno fy hun ac i'ch diweddaru ynghylch y cynlluniau ar gyfer cyflwyno'r system archwilio meddygol.

Ers bod yn y swydd, rwyf wedi clywed nad yw'r cynlluniau ar gyfer cyflwyno'r system archwilio meddygol wedi cael eu cyfleu mor effeithiol â phosibl. Rwyf am fynd i'r afael â hyn drwy gyfathrebu fel hyn. Nid oes gennyf yr atebion eto i'r holl gwestiynau a ofynnir ond rwy'n benderfynol o fod yn glir ynghylch yr hyn sydd ei angen i ddarparu system effeithiol sydd wrth wraidd diogelwch cleifion wrth symud ymlaen.

Rwyf wedi dechrau recriwtio tîm o archwilwyr meddygol arweiniol, gyda chefnogaeth swyddogion archwilio meddygol arweiniol, ym mhob un o ranbarthau Lloegr ac yng Nghymru. Bydd y swyddi hyn yn cael eu hysbysebu ym mis Ebrill ac rwy'n awyddus i benodi pobl i'r swyddi - i'm cefnogi i a chi - erbyn yr haf.

Amserlenni ar gyfer gweithredu

O rannu fy mhrofiad fy hun o rôl yr archwilydd meddygol yn Sheffield, rwy'n gwybod bod nifer o safleoedd sydd wedi mabwysiadu'r Strategaeth yn gynnar ledled y wlad ac yng Nghymru. Mae'r brwdfrydedd a ddangosir gan y rhain a llawer o rai eraill i ddechrau ar y cyfle cyntaf un yn brawf o awydd gwirioneddol i ddarparu system genedlaethol. Yn rhinwedd fy rôl fel Archwilydd Meddygol Cenedlaethol, rwyf am gysoni ymarfer ledled y wlad i ddarparu system wirioneddol genedlaethol.

Ni fydd hyn yn cael ei gyflawni dros nos a gwn fod gan lawer o ddarparwyr gwestiynau am y ffordd orau o'i sefydlu. Ac i'r rhai sydd newydd gychwyn ar y siwrnai hon, bydd cyflwyno'r system fesul cam o ddiwedd Ebrill 2019 yn synhwyrol er mwyn parchu'r amrywiol wyliau crefyddol sy'n digwydd trwy gydol mis Ebrill. Darperir rhagor o wybodaeth am amseru a chyllid yn y digwyddiad cenedlaethol ar 25 Ebrill . I archebu, ymwelwch â gwefan Coleg Brenhinol y Patholegwyr: https://www.rcpath.org/event/implementing-the-medical-examiner-system-2.html

Fy ngweledigaeth yw y byddwn yn defnyddio'r hyblygrwydd y mae'r broses anstatudol yn ei gynnig i ddarparu system a fydd yn craffu'n gymesur ar bob marwolaeth nad yw'n mynd at y crwner. Rwyf am alluogi i hyn gael ei gyflawni ar gyfer pob marwolaeth mewn gofal eilaidd erbyn diwedd Mawrth 2020 ac ar gyfer pob marwolaeth erbyn diwedd Mawrth 2021. Bydd hyn yn galluogi'r system statudol i ddod i rym wrth ddarparu'r system y mae cymaint o adroddiadau am ddiogelwch cleifion wedi'i mynnu.

Yn fy rôl genedlaethol, byddaf yn gweithio'n agos gyda'r Prif Grwner ar sut mae'r systemau craffu yn gweithio gyda'i gilydd. Rwy'n eich annog i weithio gydag uwch grwneriaid a chofrestryddion lleol, gan gynnwys penodi'r rhai sydd yn fwyaf addas ar gyfer rôl archwilydd meddygol - a swyddogion archwilio meddygol, i gefnogi'r system a manteisio i'r eithaf ar amser yr archwilwyr meddygol.

Hyfforddiant archwilwyr meddygol

Mae Coleg Brenhinol y Patholegwyr yn darparu hyfforddiant archwilwyr meddygol. Cyn dechrau yn y swydd, mae disgwyl i archwilwyr meddygol gwblhau 26 modiwl e-ddysgu craidd sydd ar gael yma: https://www.e-lfh.org.uk/programmes/medical-examiners

Yn ogystal, mae disgwyl i bob archwiliwr meddygol fynychu sesiwn hyfforddi wyneb yn wyneb undydd o fewn chwe mis ar ôl dechrau yn y swydd. Er mwyn archebu lle: https://www.rcpath.org/event/medical-examiner-face-to-face- training-session-1.html

Mae'r dyddiadau a'r lleoliadau trwy gydol 2019 fel a ganlyn: -

11 Ebrill Hwb Gwyddorau Caerdydd
16 Mai Coleg Brenhinol y Patholegwyr Llundain 20 Mehefin Prifysgol Leeds Beckett
10 Gorffennaf Coleg Brenhinol y Patholegwyr Llundain 11 Medi Birmingham (lleoliad i'w benderfynu) canol mis Hydref. Dyddiad/lleoliad i'w cadarnhau
14 Tachwedd Coleg Brenhinol y Patholegwyr Llundain System rheoli achosion digidol

Mae system ddigidol yn cael ei datblygu i gefnogi rheoli achosion sy'n cael eu trin ym mhob swyddfa archwiliwr meddygol o'r dechrau i'r diwedd. Yn dilyn safon gwasanaeth y llywodraeth ar gyfer prosiectau digidol, mae tîm y prosiect yn defnyddio technegau cyflwyno AGILE i adeiladu'r system newydd gan ganolbwyntio ar anghenion a phrofiad defnyddwyr. Mae'r system bellach yn y cyfnod alffa, ac yn ystod y misoedd nesaf bydd mwy a mwy o swyddfeydd archwilwyr meddygol yn gallu helpu i dreialu'r system a chyflwyno data go iawn i helpu i'w phrofi a'i gwella. Byddaf yn rhoi rhagor o wybodaeth i chi am sut mae'r system yn cael ei chyflwyno mewn diweddariadau fel hwn yn y dyfodol ac ar dudalen we'r archwilydd meddygol sydd wrthi'n cael ei datblygu.

Cyllid ar gyfer swyddfeydd archwilwyr meddygol lleol

Mae'r Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol (DHSC) wedi ymrwymo i gyflwyno'r system archwilio meddygol mewn ffordd sy'n niwtral o ran cost i'r GIG.

Yn ystod y cam anstatudol o weithredu, bydd DHSC, NHS Improvement ac NHS England yn cefnogi ymddiriedolaethau acíwt i reoli effaith ariannol sefydlu a rhedeg swyddfeydd archwilwyr meddygol lleol. Byddwn yn darparu rhagor o wybodaeth am ad-dalu costau yn ystod yr wythnosau nesaf. Bydd hyn yn cynnwys rhagor o fanylion ar sut y bydd costau nad ydynt wedi'u talu gan y ffi a gynhyrchir o Ran 5 o'r ffurflen Amlosgi yn cael eu had-dalu. Bydd cyllid ychwanegol yn talu cost darparu craffu cyfrannol ar gladdedigaethau ac ar gyfer marwolaethau plant (o dan 18 oed), lle nad oes unrhyw ffioedd yn daladwy. Bydd cyllid ychwanegol hefyd yn cael ei ddarparu i gwmpasu achosion lle bu craffu gan yr archwilydd meddygol, ond arweiniodd y canlyniad at ymchwiliad gan y crwner.

Rhannwch y nodyn hwn gyda chydweithwyr perthnasol yn y GIG ac i gael rhagor o wybodaeth neu i wneud ymholiadau penodol, e-bostiwch nme@nhs.net.

Cofion gorau,

Dr Alan Fletcher
Archwilydd Meddygol Cenedlaethol